


CARDIFF
CAERDYDD

# Adroddiad Gorfodi Parcio a Thraffig Blynyddol

2018/2019



**Cyngor Caerdydd** Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

***www.caerdydd.gov.uk***

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## TABL CYNNWYS


Rhagair ..... 2

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Trosolwg o barcio yng nghaerdydd ..... 6

3. Ein hanesion llwyddiannus o ran parcio yn 2018/2019 ..... 9

4. Gorfodi parcio ..... 14

5. Gorfodi mewn lonydd bysus ..... 17

6. Gorfodi traffig sy'n symud ..... 18

7. Heriau, sywadau ac apeliadau o ran HTC ..... 19

8. Defnyddio incwm o daliadau a gorfodi ..... 21

9. Cyfraddau talu htc ..... 22

10. Cynlluniau'r dyfodol ..... 23

atodiad 1: cyfrif ariannol gorfodi sifil ..... 25

atodiad 2: CYFRADDAU CYFLWYNO htc lONYDD BYSUS A THRAFFIG SY'N SYMUD YN ÔL LLEOLIAD ..... 26




## RHAGAIR



*"Carwn gymryd y cyfle i'ch croesawu chi i Adroddiad Blynyddol Parcio Cyngor Caerdydd 2018/19.*

*Rydym wedi gwneud camau breision tuag at gyflawni ein hymrwymiad i gynnig gwasanaeth parcio o'r radd flaenaf trwy gyfrwng nifer o fentrau llwyddiannus gan gynnwys synwyryddion parcio gan SmartParking a system talu am barcio MiPermit. Ar ben hynny, mae lansio cynllun llogi beics ar y stryd Nextbike, twf y cynllun Clwb Ceir, gweithio'n agosach gydag ysgolion i gyflawni "Parcio a Chamu" a chyflwyno'r mannau gwefru ar y stryd cyntaf i geir trydan yn dangos ein bod yn gwneud iechyd ein preswylwyr yn flaenoriaeth. Mae o hyd yn wych gallu cefnogi agenda ddigidol y Cyngor drwy ehangu'r technolegau presennol a chyflwyno rhai newydd, weithiau mewn meysydd arloesol newydd, er mwyn cynnig y gwasanaeth cwsmeriaid cadarnhaol sy'n ddisgwyliedig mewn oes ddigidol. Mae ein swyddogion gorfodi yn gweithio'n galed i Gadw Caerdydd i Symud ac mae'n amlwg fod eu gwaith yn talu ar ei ganfed, ac mae gorfodi ein lonydd bysiau a thraffig sy'n symud yn helpu o ran gwella dibynadwyedd bysiau a newid ymddygiad gyrwyr gan gyfrannu at wneud ein ffyrdd yn fwy diogel. Yn olaf, mae adroddiad eleni yn amlinellu cynlluniau gwirioneddol gyffrous ar gyfer y dyfodol i barhau â'r gwaith rhagorol a wnaed hyd yma; megis y cynllun peilot Strydoedd Ysgolion er mwyn helpu i wneud y daith ysgol yn fwy diogel i'n plant, a mynd i'r afael â thwyll Bathodyn Glas fel nad yw'r twyll hwnnw yn atal y rheiny sydd â gwir angen y buddion y mae'n ei roi rhag eu mwynhau.*

*Gobeithiaf y cewch yr adroddiad yn un llawn gwybodaeth a'i fod yn rhoi blas i chi o sut yr ydym yn gweithio dros Gaerdydd a throsoch chi."*

- Matthew Wakelem - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun (Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth).

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r ffaith bod cymaint o bobl yn dymuno byw a gweithio yng Nghaerdydd yn dangos sut rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Caerdydd yn parhau'n lle gwych i fyw, gweithio ac astudio ynddo ac i ymweld ag ef; fodd bynnag mae poblogaeth sy'n ehangu'n sylweddol, demograffeg amrywiol a pherchnogaeth ceir sy'n cynyddu yn rhoi straen sy'n tyfu'n barhaus ar rwydweithiau parcio a thrafnidiaeth y ddinas. Fel yr awdurdod priffyrdd, mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i reoli'r rhwydwaith ffyrdd a thraffig drwy amrywiaeth o ffyrdd; megis darparu parcio ar y ffordd ac oddi arni, sicrhau y cedwir prif lwybrau'n rhydd rhag rhwystrau trwy orfodi effeithiol a darparu dulliau teithio cynaliadwy effeithlon a deniadol. Mae cyflawni'r heriau hyn yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod Caerdydd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n cefnogi preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i barhau i fwynhau'r holl fuddion sydd gan y ddinas hon i'w cynnig.

# YR HERIAU



## Twf yn y Dyfodol

Bydd Caerdydd yn tyfu dros y degawd nesaf. Mae’r cynllun datblygu lleol yn darparu ar gyfer 41,000 (net) o gartrefi newydd a hyd at 40,000 o swyddi newydd erbyn 2026 a fydd yn cynyddu’r galw am deithio yn sylweddol ac yn dwysau pwysau ar ffyrdd Caerdydd.



## Cymudo am i mewn

Caerdydd yw’r ganolfan ar gyfer cyflogaeth rhanbarthol a phob dydd bydd rhwng 76% ac 84% o weithwyr yn cymudo o awdurdodau lleol cyfagos i mewn i’r ddinas. Mae’r pwysau ychwanegol yn ysgol oriau brig yn achosi tagfeydd ac oedi sy’n arwain at amserau teithio hwy. Mae lonydd bysus yn galluogi nifer mwy o gymudwyr i weld teithio ar y bws fel dewis arall cyfleus i ddefnyddio ceir preifat.

Hefyd mae bysus yn darparu trafnidiaeth i bobl na allant yrru eu hunain i gael mynediad at weithgareddau gwaith, manwerthu, addysg, cymdeithasol a hamdden. Mae gwasanaethau bysus yn

arbennig o agored i effeithiau tagfeydd traffig ac mae unrhyw oedi yn cynyddu costau gweithredu ac yn arwain at brisiau teithio uwch.



**Lefelau perchnogaeth ceir**

Mae perchnogaeth ceir wedi lleihau mewn rhai rhannau o Gaerdydd ond wedi cynyddu mewn rhannau eraill; bu cynnydd mawr yn Butetown, Grangetown a Radur (cyfrifiad 2011). Mae mwy o geir ar y briffordd yn golygu mwy o bwysau ar gyfleusterau parcio a mwy o gyfle am dagfeydd wedi'u hachosi gan gerbydau'n anwybyddu cyfyngiadau parcio a thraffig.



**Ansawdd Aer**

Mae ffigurau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod nifer y marwolaethau y flwyddyn y gellir eu priodoli i ansawdd aer gwael wedi cynyddu i dros 225 ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Traffig sy'n cyfrannu fwyaf at leihau ansawdd aer ac, er ei fod yn cael effaith ar ansawdd bywyd pawb, y rhai ifanc iawn a phobl hŷn yw rhai o'r bobl sy'n dioddef fwyaf.[1]

[1] Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd, 2019

## AMCANION

Mae amcanion ein polisïau'n alinio gyda Chynllun Trafnidiaeth Leol Cyngor Caerdydd:

**Yr Amgylchedd**



Caiff y rhwydwaith trafnidiaeth ei reoli i hyrwyddo teithio cynaliadwy ac ansawdd aer gwell, sy'n cefnogi symud i ffwrdd o ddefnydd cerbydau preifat

**Economi**



Caiff darpariaeth parcio a thrafnidiaeth ei theilwra i ofynion, demograffeg a chymeriadau unigol pob ardal er mwyn sicrhau twf economaidd

**Diogelwch a Sicrwydd**



Yn fwy nag unrhyw beth arall bydd y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn blaenoriaethu diogelwch a chânt eu gorfodi i hyrwyddo parcio a defnydd cyfrifol o'r briffordd

**Hygyrchedd**



Wrth i Gaerdydd dyfu mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen na chaiff neb ei adael ar ei hôl hi oherwydd ei amgylchiadau beth bynnag y bônt

**Integreiddio**



I integreiddio parcio gyda phob ffurf ar drafnidiaeth, rheoli rhwydweithiau a chynllunio defnydd y tir, gan arwain at system drafnidiaeth sy'n addas i'r 21ain ganrif

## 2. TROSOLWG O BARCIO YNG NGHAERDYDD

Mae gan Gaerdydd ystod eang o gymdogaethau, pob un â'i nodweddion ei hun. Mae materion parcio unigol yn deillio o'u lleoliad, cymysgedd o ddefnydd tir, a chyfleusterau trafnidiaeth. Mewn cyffredin â threfi a dinasoedd eraill, darperir parcio gan gyfuniad o fathau gwahanol ar gyfleusterau parcio:

### PARCIO Â THRWYDDED I BRESWYLWYR



Rheoli parcio mewn ardaloedd preswyl gan gynllun parcio â thrwydded i breswylwyr y Cyngor a'i bolisïau cysylltiedig. Yn ystod blwyddyn ariannol 2018/2019, gwnaethom ddosbarthu mwy na 26,000 o drwyddedau i breswylwyr.

Mae systemau parcio i breswylwyr yn unig yn gweithredu ar strydoedd lle y mae galw uchel am leoedd parcio ar y stryd, gan breswylwyr a chan ddefnyddwyr eraill e.e. cymudwyr a siopwyr. Er nad yw cael trwydded i breswylwyr yn gwarantu lle parcio, mae'n cynyddu'r tebygrwydd o breswylwyr yn gallu parcio mewn mannau problematig.




### PARCIO I BOBL ANABL

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn darparu trefniant cenedlaethol o gonsesiynau parcio i bobl sydd ag anawsterau symudedd difrifol. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddinas yn parcio hygyrch i ddeiliaid bathodynnau glas er mwyn dileu rhai o'r rhwystrau a fydd o bosibl fel arall yn cael effaith ar fywyd pob dydd. Mae baeau bathodyn glas pwrpasol wedi'u lleoli mewn lleoliadau cyfleus ar draws y ddinas ac yn y rhan fwyaf o feysydd parcio'r Cyngor, a rhoddir ystyriaeth bob amser i ofynion deiliaid bathodynnau glas pan gaiff unrhyw gynllun parcio newydd ei gyflwyno. Hefyd, rydym yn derbyn ceisiadau am faeau bathodyn glas ar gais gan ddeiliaid bathodynnau glas y tu allan i'w cartrefi.

## TALU AC AROS AR Y STRYD



Mae gennym dros 2,000 o fannau parcio talu ac aros ar y stryd (a adwaenwyd gynt fel talu ac arddangos). Mae 8 o fandiau tariff talu ac aros gwahanol, yn dibynnu ar anghenion unigol yr ardal lle y darperir y parcio. Mae gan lawer o’r bandiau hyn barcio am ddim cychwynnol er mwyn helpu strydoedd mawr i barhau fel dewis amgen deniadol i gyfadeiladau siopa y tu allan i’r dref; ac ar yr un pryd yn darparu’r rheolaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud y gorau o’r budd posibl o’r baeau parcio hyn. Mae i’n holl dariffau talu ac aros ar y stryd brisiau cystadleuol iawn o’u cymharu â’n dinasoedd sy’n gymaryddion ledled y wlad.

## MEYSYDD PARCIO




Rydym yn cynnal ac yn cadw 21 o feysydd parcio arwyneb talu ac aros oddi ar y stryd ledled y ddinas gyda 1,800 o faeau parcio. Hefyd mae gan lawer o’n meysydd parcio amrywiaeth o faeau pwrpasol, megis ar gyfer beiciau modur, deiliad trwyddedau neu ddeiliaid Bathodynnau Glas.

Mae meysydd parcio Gerddi Sophia (CF11 9JU) yn un o’r rhai mwyaf poblogaidd, diolch i fod wedi’i leoli’n agos i ganol y ddinas, o fewn y Parc Bute trawiadol, ac mae hyd yn oed yn agos i orsaf coetsis National Express. Gyda detholiad eang o atyniadau a bwytai cyffrous, nid oes syndod bod Cei’r Fôr-forwyn yn gyrchfan cyntaf i lawer o ymwelwyr, ac mae ein maes parcio yn Havannah Street (CF10 5SG) wedi’i leoli’n berffaith i’r rhai sy’n dymuno fforio yng nghanol Bae Caerdydd.

Mae llawer iawn o feysydd parcio arhosiad byr o gwmpas ein canolfannau siopa yn yr ardal, megis ar Severn Road (CF11 9DX) a Gray Street (CF11 9NE), sy’n darparu parcio am ddim cychwynnol cyn bod taliadau’n gymwys ar gyfer siopwyr a’r rhai sy’n ymweld â’r busnesau lleol yn yr ardal (er y bydd angen cael tocyn am ddim o hyd).

## CLYBIAU CEIR

Cyflwynwyd y cynllun clwb car yng Nghaerdydd fel rhan o'r Project y Ddinas Teithio Cynaliadwy. Mae Clybiau Ceir yn galluogi pobl i ddefnyddio cerbydau pan fydd angen arnynt, yn hytrach na bod yn berchen ar gerbyd personol. Caiff cerbydau Clwb Ceir eu parcio mewn baeau pwrpasol sy'n dileu'r angen i chwilio am le parcio. Mae opsiynau arhosiad byr ac arhosiad hir ar gael.






## PARCIO BEICIAU

Mae beicio'n fodd trafnidiaeth allweddol ar gyfer teithiau lleol byr a chaiff ei ddefnyddio hefyd yn aml ar gyfer teithiau amlfoddol, yn enwedig ar y trên. Mae lle parcio diogel o safon uchel yn hanfodol er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio beic ar gyfer ei taith gyfan neu ran ohoni. Hefyd mae gan Gyngor Caerdydd raglen i osod stondinau beiciau ychwanegol ar draws y ddinas ac mae ganddo safonau ar gyfer gosod lleoedd parcio beiciau mewn datblygiadau newydd.


## CEFNOGI'R STRYD FAWR

Mae'r Strydoedd mawr yn wynebu heriau penodol ac mae data ledled y DU yn dangos y 10fed gostyngiad blynyddol o ran pobl yn ymweld â'r strydoedd mawr [2]. Fodd bynnag, mae sut mae Caerdydd yn ymateb i'r her hon yn allweddol, yn enwedig wrth gefnogi busnesau llai na fydd ganddynt o bosibl yr hyblygrwydd ariannol i addasu i'r newid hwn mor gyflym ag y gall mentrau masnachol mwy o faint. Telir sylw penodol i ddarparu parcio o gwmpas strydoedd mawr, gan symud tuag at bolisïau ac arferion sydd wedi'u teilwra i ddemograffeg, gofynion ac anghenion penodol ardaloedd penodol.



[2] Adroddiad  IPM "High Street 2030: Achieving Change", Rhagfyr 2018..

# 3. EIN HANESION LLWYDDIANNUS O RAN PARCIO YN 2018/2019




Nid yw parcio ynglŷn â darparu lleoedd i adael cerbydau ynddynt yn unig, nag ychwaith am reoleiddio defnydd y briffordd, ond hefyd ynglŷn â darparu profiad parcio cadarnhaol i gwsmeriaid ac rydym yn ymfalchïo'n fawr mewn ceisio meithrin y brofiad hwn trwy datblygu ac arloesedd.

## NEXTBIKES

Ym mis Mawrth 2018, cyflwynom NextBikes i strydoedd Caerdydd. Cynhelir NextBikes gan NextBike UK ac maent yn galluogi pobl i logi beic am gyfnod byr, gan eu casglu a'u gollwng mewn llawer o'r gorsafoedd docio cyfleus eu lleoliad o gwmpas y ddinas.

Ni allai llogi beic fod yn haws, gydag App pwrpasol neu linell gymorth ffôn sy'n eich galluogi i ddewis eich cyfnod llogi, gwneud taliad a derbyn eich cod 4 digid a fydd yn datgloi'r beic i'w logi yn rhwydd. Gallwch hyd yn oed gofrestru ar gyfer cyfrif blynyddol er mwyn elwa ar arbedion sylweddol.

Bu'r galw am y gwasanaeth yn anhygoel, gyda **48,253** anferth o gofrestriadau ar y cynllun, a beiciau yn cael eu llogi **396,957** o weithiau.

Cafodd NextBike hyd yn oed ei enwebu am wobr Caerdydd – Dinas Beicio am ei gyfraniad at wella beicio yn y ddinas, ar ôl gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd drwy gydol cynllunio a darparu'r cynllun[3].

[3] https://cyclingindustry.news/cardiff-nextbike-scheme-double-2019

## PARCIO HEB ARIAN PAROD MIPERMIT



Yn 2017, wrth gydweithio gyda MiPermit, cyflwynom barcio heb arian parod mewn rhai o'n lleoliadau talu ac arddangos ar y stryd ac oddi ar y stryd. Roedd hyn yn golygu y gall pobl brynu amser parcio yn rhwydd ac yn gyfleus ar yr App MiPermit (iPhone ac Android yn unig) neu drwy eu gwasanaeth negeseuon testun.

Pan gyflwynom barcio heb arian parod, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2017/2018 roeddem eisoes wedi gweld defnydd cadarnhaol o'r cynllun, gyda **11%** o ddigwyddiadau parcio yn cael eu talu gan ddefnyddio MiPermit.

Mae'r duedd hon wedi parhau a **dyblodd** y defnydd yn y flwyddyn ariannol 2018/2019; mae **57,000** o gwsmeriaid bellach wedi creu cyfrifon gyda MiPermit.


Mae hyn wedi helpu i gyfrannu at ddirywiad anferth o ran taliad arian parod, gyda dim ond **30%** o drafodion yn cael eu gwneud yn y ffordd honno. Mae hyn yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â phrynu, cynnal a chadw, atgyweirio a dwyn peiriannau talu ac arddangos yn aruthrol, arian all bellach gael ei ddefnyddio'n well i ariannu mentrau parcio newydd.

### MiPermit a Gwobrau Menter y Frenhines 2019

Rydym yn ofalus iawn wrth ddewis ein cyflenwyr i sicrhau eu bod nid yn unig yn cynnig gwerth am arian ond hefyd yn meddu ar yr ymroddiad a'r weledigaeth i gyflawni ein hagenda parcio yn llwyddiannus.

Rydym yn falch o gyhoeddi mai MiPermit yw enillydd haeddiannol Gwobrau Menter y Frenhines: Arloesedd 2019. Gwobrau'r Frenhines yw'r achrediad swyddogol uchaf yn y DU i fusnesau Prydain sy'n hyrwyddo rhagoriaeth. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr MiPermit, Paul J Moorby:

*"Mae MiPermit yn falch iawn o gael y wobr hon ac o fod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd ar ddatblygu camau nesaf taith drawsffurfio ddigidol gyffrous iawn! Edrychwn ymlaen at ddod â mwy o fanteision i ddefnyddwyr gwasanaeth ledled Caerdydd wrth barhau i roi ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud i gynnig profiad parcio sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif."*









## PARKCARDIFF

Yn 2017 ymunom â SmartParking Ltd. i osod synwyryddion yn ein hardaloedd aros cyfyngedig a thalu ac aros. Mae synhwyrydd parcio yn ddyfais electronig fach a osodir yn llawr pob bae parcio ac mae'n synhwyro ac yn cofnodi'r amser y mae cerbyd yn cyrraedd ac yn ymadael. Yna gall cwsmeriaid lawrlwytho app ParkCardiff er mwyn gweld ble mae mannau parcio gwag yn seiliedig ar y wybodaeth hon, sy'n golygu nad oes angen bellach i chi wastraffu amser yn gyrru o gwmpas gan obeithio bod lle yn rhydd o bosibl. Rydym bellach wedi gosod tua 3,300 o synwyryddion ar draws y ddinas a bu'r defnydd gan y cyhoedd yn gadarnhaol iawn, gyda dros 4,000 o ddigwyddiadau o lawrlwytho app ParkCardiff hyd yn hyn.

Hefyd gellir dadansoddi'r data hwn o synwyryddion i nodi tueddiadau mewn ymddygiad parcio, sy'n golygu bod gennym fwy o ddata nag erioed o'r blaen i helpu i ddatblygu polisïau a chynlluniau sydd wir yn adlewyrchu gofynion parcio unigol ardaloedd penodol er mwyn cyflawni projectau priffyrdd sy'n gweithio i bawb. Hefyd gellir defnyddio data synwyryddion i orfodi'r cyfyngiadau parcio, gan nodi os bydd person wedi aros dros yr amser a ganiateir iddynt, gan helpu i sicrhau mwy o gydymffurfio, gan arwain at drosiant mwy o gerbydau yn y baeau hyn.

## GWEFRU CERBYDAU TRYDAN (EV)

Mae ansawdd yr aer yn bryder mawr ar draws y DU, felly rydym yn gweithio'n barhaus i geisio lleihau llygryddion gan nad yw Caerdydd yn eithriad i hyn. Yn 2018/2019 cawsom arian grant gan OLEV (Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel) er mwyn gosod pwyntiau gwefru EV cyflym 7 cilowat yn 15 lleoliad o gwmpas y ddinas. Dechreuodd gosodiadau yn y lleoliadau hyn ym mis Ebrill 2019 ac os bydd y cynllun yn llwyddiannus caiff rhagor eu gosod yn y dyfodol agos.












## "PARCIO A BRASGAMU"

Rhwng 2006 a 2011, bu mwy na hanner miliwn o ddamweiniau car ar ffyrdd ge ysgolion y DU, gan arwain at dros 1,000 o blant yn cael eu hanafu mewn damweinia bob mis [1]. Mae'r peryglon sy'n ganlyniad i barcio diystyriol o gwmpas ysgolion yn do yn fater mwyfwy cymhleth felly, pan agorodd Ysgol Hamadryad yn Butetown, roed y rhai a oedd yn gyfrifol yn benderfynol o wneud popeth y gallent i helpu i unioni hy ac i sicrhau bod diogelwch plant yn brif flaenoriaeth.

Aethpwyd at wasanaethau parcio i gefnogi datblygu cynllun bws cerdded "park an stride" lle, am £2.50 y flwyddyn yn unig, byddai rhieni yn gallu cael trwydded parci electronig a fyddai'n eu galluogi i ddefnyddio maes parcio lleol y Cyngor i ollwng chasglu eu plant yn ddiogel. Wedyn byddai staff yn hebrwng y plant i'r ysgol, ga leihau nifer y cerbydau problematig o gwmpas mynedfa'r ysgol a gwella diogelwch y syfrdanol o ganlyniad i hyn.

Nawr gallai'r ysgol fod yn arloeswr i eraill o gwmpas y DU a gwahoddwyd Cadeiryd y Llywodraethwyr i siarad â Chynulliad Cymru yn ogystal â chynghori ysgol newydd y Reading ar y gwersi a ddysgwyd.

## TRWYDDEDAU TYMOR MAES PARCIO GERDDI SOPHIA

Oherwydd y galw, cyflwynom drwyddedau tymor ar gyfer un o'n meysydd parci prysuraf yng nghanol y ddinas; Gerddi Sophia. Mae'r rhain yn galluogi gyrwyr i dal am drwydded tymor 1 mis, 2 mis, 6 mis neu flwyddyn sy'n rhoi arbedion sylwedd yn hytrach na thalu'n ddyddiol fel arall. Gan eu bod yn rhai rhithwir, mae'n gyfly ac yn rhwydd eu cael ac nid oes angen arddangos unrhyw beth yn y cerbyd, sy' lleihau'r risg o dderbyn dirwy parcio. Daethant yn llwyddiant yn gyflym, phrynwyd dros **130** yn y deufis cyntaf yn unig.

## CYMRYD CAMAU GWEITHREDU AR GERBYDAU HEB DRETH

Ym mis Ionawr 2019, datganolodd y DVLA bwerau i ni i'n helpu i glampio a thynnu cerbydau heb dreth neu gerbydau ag HOS ond ar y briffordd gyhoeddus i ffwrdd. Dangosodd data DVLA, o 2018, bod tua 8,500+ o gerbydau heb dreth ar ffyrdd Caerdydd. Ers cychwyn gorfodi rydym wedi cymryd camau gweithredu yn erbyn 167 o gerbydau.




Mae mynd i'r afael â cherbydau heb dreth nid yn unig yn hyrwyddo cydymffurfio, ond mae cysylltiad real iawn rhwng cerbydau heb dreth a gweithgarwch troseddol, a chafodd llawer o gerbydau a gafodd eu clampio neu eu tynnu i ffwrdd gan y Cyngor eu hadnabod fel rhai sy'n gysylltiedig â gweithgarwch o'r fath.

**Mae'r neges yn syml – Rhowch dreth arno neu gollwch ef!!**

**DIM EITHRIADAU. DIM ESGUSODION. DIM DIANC.**

## 4. GORFODI PARCIO

Bu Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am fwyafrif gorfodi parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd yn y ddinas ers 2010 yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004.

### RÔL SWYDDOGION GORFODI SIFIL (CEOS)



Mae rôl y Swyddog Gorfodi Sifil yn amrywiol, ond yn bennaf mae er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth parcio i sicrhau bod y ddinas yn aros yn hygyrch ac yr ymgymerir â pharcio ar strydoedd y ddinas ac mewn meysydd parcio y Cyngor yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Hefyd mae gan CEOs fantais unigryw gan eu bod 'ar y stryd' ac felly gallant fod yn llysgenhadon pwysig ar gyfer darparu profiad parcio cadarnhaol.

Mae CEOs yn cyflawni llawer o swyddogaethau megis helpu aelodau'r cyhoedd, rhoi cyfarwyddiadau, addysgu'r cyhoedd am reolaethau parcio a dosbarthu HTC fel cam olaf yn unig. Disgwylir i CEOs roi gwybod i adrannau perthnasol unrhyw namau o ran llinellau ac arwyddion ac i helpu i gynnal a chadw peiriannau talu ac arddangos.

## Diwrnod ym Mywyd Swyddog Gorfodi Sifil

Nid yw rôl Swyddog Gorfodi sifil yn un rhwydd, ond nid oedd Alison Tooze o Gymdeithas Parcio Prydain yn ofni camu i esgidiau ein Swyddog am ddiwrnod er mwyn cael syniad o'r heriau maent yn eu hwynebu wrth Gadw Caerdydd i Symud.

***"Ar ôl treulio rhywfaint o amser allan ar strydoedd Caerdydd gyda Thîm Swyddog Gorfodi Sifil y ddinas, cefais fy synnu ar yr ochr orau o weld pa mor broffesiynol maent yn ymddwyn ac o weld eu hymrwymiad i geisio addysgu a helpu pobl i ddeall ble y gallant a ble na allant barcio a chadw strydoedd Caerdydd yn ddiogel ac yn glir rhag tagfeydd"*** *Alison Tooze, Cymdeithas Parcio Prydain*

BPA
BRITISH PARKING ASSOCIATION


## GORFODI CEO

Mae CEOs yn patrolio ar draws y ddinas a phan fydd CEO yn gweld bod cerbyd wedi'i barcio'n anghyfreithlon, gall ddosbarthu Hysbysiad Tâl Cosb (HTC). Fel arfer caiff y rhain eu hatodi i ffenestr flaen y car neu eu rhoi i'r gyrrwr, ond hefyd gellir eu hanfon trwy'r post os caiff y cerbyd ei yrru i ffwrdd cyn y gall gyflwyno'r HTC neu os caiff ei atal rhag ei gyflwyno, er enghraifft gan fygythiadau o drais.

Mae dau swm gwahanol o ran cosbau parcio, yn dibynnu ar y math ar dramgwydd; £70 ar gyfer tramgwyddau lefel uwch neu £50 ar gyfer tramgwyddau lefel is (caiff y ddau eu gostwng gan 50% os cânt eu talu o fewn 14 diwrnod).

Os caiff y HTC ei anwybyddu bydd yn codi ac yn y pen draw mae'n bosibl y bydd yn mynd yn adferadwy fel y byddai'n daladwy o dan Gorchymyn Llys Sirol.

## GORFODI TELEDU CYLCH CYFYNG




Yn ogystal â CEOs yn patrolio'r strydoedd, mae gennym geir camera sydd â thechnoleg ANPR i adnabod cerbydau sy'n parcio'n anghyfreithlon lle y mae dulliau gorfodi traddodiadol yn broblematig. Mae'r ceir camera ond yn targedu'r tramgwyddau parcio mwyaf peryglus neu rwystrol, megis stopio ar linellau igam-ogam y tu allan i ysgolion.

Hefyd mae gennym gamerâu cylch cyfyng parcio sefydlog mewn lleoliadau pan fydd nifer uchel o dramgwyddau yn digwydd dro ar ôl tro er mwyn darparu gorfodi 24 awr o ran gwahanol gyfyngiadau.

Pan welir tramgwydd parcio trwy deledu cylch cyfyng, caiff yr HTC ei anfon trwy'r post. Swm y gosb fydd £70 neu £50 (wedi'i leihau gan 50% os caiff ei dalu o fewn 21 diwrnod).

## TRAMGWYDDAU MWYAF CYFFREDIN YN ÔL MATH 2018/2019

Rydym yn gorfodi dros 30 o fathau gwahanol ar dramgwyddau parcio, ond gallwch ddod o hyd i'r 5 tramgwydd mwyaf cyffredin a arweiniodd at CEO yn cyflwyno HTC isod:

| *Math ar Dramgwydd* | HTCau a gyflwynwyd 2017/2018 | HTCau a gyflwynwyd 2018/2019 | Newid % blynyddol |
|---|---|---|---|
| ***Mannau parcio i breswylwyr -*** *Megis parcio heb drwydded neu barcio â thrwydded annilys* | **18,645** | **22,169** | **19%** |
| ***Llinellau melyn –*** *Megis llinellau melyn dwbl* | **15,038** | **17,734** | **18%** |
| ***Talu ac Aros –*** *megis parcio heb docyn neu wedi i docyn ddod i ben neu aros heb arian parod* | **12,252** | **13,527** | **10%** |
| ***Parcio gan beri rhwystr ar gyrbiau disgynedig neu ddyrchafedig –*** *megis parcio gerllaw neu o flaen palmant botymog sy'n helpu'r rhai a nam ar eu golwg i groesi'r ffordd* | **3,858** | **4,771** | **24%** |
| ***Dim bathodyn glas dilys mewn man parcio anabl –*** *megis parcio mewn man parcio anabl heb arddangos bathodyn glas neu arddangos bathodyn glas sydd â'i gyfnod wedi dod i ben* | **2,836** | **3,959** | **40%** |
| | | *Cyfanswm y newid* | **+17%** |

## 5. GORFODI MEWN LONYDD BYSUS



Er mwyn helpu i gyflawni uchelgais y Cyngor i fod yn ddinas arweiniol ar lwyfan y byd, ein nod yw annog newid moddol i ffwrdd o'r cerbyd modur preifat tuag at ddewisiadau teithio gwyrddach erbyn 2026. Mae gorfodi lonydd bysus yn chwarae rôl allweddol wrth ganiatáu i Gaerdydd gyflawni hyn gan leihau oedi, gan wneud teithio mewn bws yn ddewis amgen mwy deniadol.

### SUT MAE GORFODI'N GWEITHIO




RHEOLAU'R FFORDD FAWR RHEOL 141: ***"Lonydd Bysus:*** *dangosir y rhain gan farciau ac arwyddion ar y ffordd sy'n dangos pa gerbydau eraill (os unrhyw rai) y caniateir iddynt ddefnyddio'r lôn fysus. "Oni bai y dangosir fel arall, ni ddylech yrru mewn lôn fysus yn ystod ei chyfnod gweithredu."* Ar hyn o bryd, y cerbydau sydd â'r hawl i ddefnyddio'n holl lonydd bysus yw bysus, tacsis, cerbydau i'w llogi'n breifat (yn ogystal â beiciau pedal).

Dim ond gan gamerâu sefydlog neu symudol, a adwaenir fel dyfeisiau cymeradwy, y gellir gorfodi tramgwyddau mewn lonydd bysus. Mae ein holl gamerâu wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod mewn lleoliadau gorfodi. Gosodir y camerâu hyn mewn lleoliadau strategol ar y rhwydwaith trafnidiaeth neu lle y nodwyd bod niferoedd sylweddol o yrwyr yn camddefnyddio lonydd bysus. Mae'r camera yn cofnodi tystiolaeth fideo o dramgwydd posibl, sydd wedyn yn cael ei hadolygu gan CEO er mwyn sicrhau bod tramgwydd wedi digwydd cyn iddo awdurdodi cyflwyno HTC.

Y gosb ar gyfer tramgwydd mewn lôn fysus yw £70, wedi'i lleihau i £35 os caiff ei thalu o fewn 21 diwrnod. Os caiff yr HTC ei anwybyddu, bydd y gosb yn codi.

## 6. GORFODI TRAFFIG SY'N SYMUD

Yn 2013 rhoddodd Cynulliad Cymru bwerau i awdurdodau Cymru i ddosbarthu Hysbysiadau Tâl Cosb (HTC) ar gyfer rhai tramgwyddau traffig sy'n symud penodol [4] megis stopio mewn cyffyrdd blwch, gwneud troadau a waherddir a methu ildio pan fydd gofyn gwneud hynny. Cyngor Caerdydd oedd y Cyngor cyntaf y tu allan i Lundain i ddechrau gorfodi tramgwyddau traffig sy'n symud.

### SUT MAE GORFODI'N GWEITHIO



Dim ond gan gamerâu sefydlog neu symudol, a adwaenir fel dyfeisiau cymeradwy, y gellir gorfodi tramgwyddau traffig sy'n symud. Mae ein holl gamerâu wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod mewn lleoliadau gorfodi. Gosodir y camerâu hyn mewn lleoliadau strategol ar y rhwydwaith trafnidiaeth neu lle y nodwyd bod niferoedd sylweddol o yrwyr yn anwybyddu cyfyngiadau ar draffig.

Mae'r camera yn cofnodi tystiolaeth fideo o dramgwydd posibl, sydd wedyn yn cael ei hadolygu gan CEO er mwyn sicrhau bod tramgwydd wedi digwydd cyn iddo awdurdodi cyflwyno HTC.

Yn ystod y flwyddyn 2018/2019, dim ond ar gyfer tramgwyddau troadau a waherddir (57%), cyffyrdd blwch (34%) a dim mynediad (9%) y dosbarthom HTCau. Y gosb ar gyfer tramgwydd traffig sy'n symud yw £70, wedi'i lleihau i £35 os caiff ei thalu o fewn 21 diwrnod. Os caiff yr HTC ei anwybyddu, bydd y gosb yn codi.




[4] Rheoliadau Gorfodi Sifil Tramgwyddau Traffig ar y Ffordd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013

# 7. HERIAU, SYWADAU AC APELIADAU O RAN HTC

Mae hawl gan unrhyw un sy'n derbyn HTC a ddosbarthwyd gan Gyngor Caerdydd, ac yn credu na ddylai fod rhaid iddo dalu'r gosb, ysgrifennu atom i esbonio pam [5]. Yna byddwn yn ystyried y rhesymau a roddir ac yn penderfynu a ydynt yn ddigonol i warantu canslo'r HTC.

## HERIAU PARCIO ANFFURFIOL

Pan gaiff HTC parcio ei roi ar gerbyd, neu ei roi i yrrwr, caiff y person sy'n gyfrifol am y cerbyd wrthwynebu ei ddosbarthu trwy osod her anffurfiol o fewn 14 diwrnod. Os byddwn yn credu y rhoddwyd rhesymau digonol dros ganslo, yna caiff yr achos ei gau ac ni chymerir unrhyw gamau gweithredu pellach. Os byddwn yn gwrthod yr her ac ni thelir yn llawn o fewn 28 diwrnod, byddwn yn cysylltu â'r DVLA i gael manylion y ceidwad cofrestredig a byddwn yn dosbarthu Hysbysiad i Berchennog (NtO).

## SYLWADAU FFURFIOL

Pan gaiff HiB ei gyflwyno neu os derbyniwyd HTC trwy'r post oherwydd y cafodd y tramgwydd ei weld trwy deledu cylch cyfyng, caiff y person a enwir ar yr Hysbysiad i Berchennog /HTC trwy'r post wneud sylwadau ffurfiol.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu peidio â chanslo'r HiB neu'r HTC trwy'r post, caiff Hysbysiad Gwrthod ei gyflwyno i esbonio pam. Yna dylid talu neu apelio yn erbyn y gosb o fewn 28 diwrnod.

**Wyddoch chi?**

Yn wahanol i rai mathau eraill ar ddirwyon, nid y gyrrwr sy'n gyfrifol am HTC.

Yn lle hynny, y gyrrwr, heblaw bod y cerbyd ar log; yn yr achos hwnnw y llogwr, sy'n atebol am y taliad.

HERIAU PARCIO ANFFURFIOL:

DOSBARTHWYD **11,792**

DERBYNIWYD **57%**

GWRTHODWYD **43%**

SYLWADAU FFURFIOL:

CYFLWYNWYD **37,860**

DERBYNIWYD **63%***

GWRTHODWYD **37%**

*mae'n bwysig cofio nad yw hyn o reidrwydd yn golygu ein bod yn stopio gorfodi ac mae'n bosibl y bydd yn golygu ein bod yn arallgyfeirio'r HTC i rywun arall, megis pe bai'r cerbyd ar log a darperir manylion y llogwr i ni.

[5] Rheoliadau Gorfodi Sifil Tramgwyddau Traffig ar y Ffordd (Sylwadau ac Apeliadau) (Cymru) 2013

## APELIADAU I'R BEIRNIAD

Os byddwn yn gwrthod sylwadau person, mae ganddo'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig o fewn 28 diwrnod o'r hysbysiad gwrthod. Yna bydd beirniaid annibynnol y Tribiwnlys yn ystyried rhinweddau'r achos a thystiolaeth y ddau barti ac yn penderfynu a ddylid gorfodi neu ganslo'r HTC. Fel arfer bydd eu penderfyniad yn derfynol oni bai y caiff ei herio yn yr Uchel Lys.

Er mai yn anaml y gwneir costau, gellir eu gwneud o dan amgylchiadau eithriadol pan fydd un parti neu'r llall wedi gweithredu'n flinderus. Gellir ond gwneud apêl ar seiliau cyfyngedig:

- Ni ddigwyddodd y tramgwydd
- Roedd y gosb yn fwy na'r swm a oedd yn gymwys o dan yr amgylchiadau
- Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol yn annilys (nid yw'n gymwys ar gyfer cyffyrdd blwch neu safleoedd bysus)
- Bu anghywirdeb gweithdrefnol gan y Cyngor
- Anfonwyd cosb drwy'r post pan nad oedd hawl gan y Cyngor ei hanfon drwy'r post
- Nid chi oedd y perchennog/ roedd y cerbyd ar log o dan gytundeb cymwys
- Aethpwyd â'r cerbyd heb ganiatâd: e.e. wedi'i ddwyn
- Cafodd y gosb ei thalu eisoes

Nid oes gan feirniaid unrhyw bwerau i ganiatáu apêl a wnaed am resymau eraill, megis lliniaru. Am ragor o wybodaeth gallwch ymweld â thudalen y Tribiwnlys ar y we: www.trafficpenaltytribunal.gov.uk

GWNAED **668** O APELIADAU

O'R APELIADAU A WRTHWYNEBWYD:

PARCIO:

**71%** AR GYFER Y CYNGOR

**29%** AR GYFER YR APELYDD

LONYDD BYSUS:

**79%** AR GYFER Y CYNGOR

**21%** AR GYFER YR APELYDD

TRAFFIG SY'N SYMUD:

**54%** AR GYFER Y CYNGOR

**46%** AR GYFER YR APELYDD

# 8. DEFNYDDIO INCWM O DALIADAU A GORFODI

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr incwm o daliadau sy'n gysylltiedig â pharcio a gorfodi yn cael ei ddefnyddio'n briodol, yn gyfrifol ac fel y caniateir yn unig.

Defnyddir y mwyafrif o'r incwm (47%) i ariannu cynnal a chadw pob dydd cyfleusterau parcio megis cynnal a chadw peiriannau talu ac arddangos, arwyddion meysydd parcio ac y caiff ei ddefnyddio hefyd i ariannu gorfodi parcio a thraffig.

Caiff unrhyw incwm dros ben ei glustnodi o dan y gyfraith* a gellir ei ddefnyddio at nifer o ddibenion yn unig, megis priffyrdd a gwelliannau amgylcheddol, neu ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.



**Taliadau parcio** – o daliadau talu ac aros a thaliadau ar gyfer trwyddedau neu drwyddedau tymor

**Gorfodi Parcio** – o daliadau HTCau ar gyfer pob tramgwydd parcio ar ac oddi ar y stryd.






**Gorfodi Lonydd Bysiau** – o daliadau HTCau ar gyfer gyrru'n anghyfreithlon mewn lonydd bysiau a thrwy giatiau bysiau

**Gorfodi Traffig Sy'n Symud** – o daliadau HTCau am aros mewn cyffyrdd blwch, cwblhau troadau a waherddir ac am fethu cydymffurfio ag arwyddion dim mynediad



## PROJECTAU A GEFNOGIR GAN Y GWARGED GORFODI SIFIL A PHARCIO

| | |
|---|---|
| **Diogelwch** | Ehangu parthau 20 mya<br>Projectau diogelwch ysgolion<br>Cynllun Strydoedd Ysgolion |
| **Priffyrdd** | Gwelliannau a chynnal a chadw priffyrdd a thrafnidiaeth cyffredinol<br>Darparu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig |
| **Yr Amgylchedd** | Next Bikes<br>Diwrnodau heb geir<br>Cynlluniau Teithio Llesol<br>Gwefru cerbydau trydan<br>Gwelliannau a gorfodi amgylcheddol cyffredinol |
| **Parcio** | Ehangu cynlluniau parcio preswyl â thrwydded<br>Cyflwyno trwyddedau parcio rhithwir |

*Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gorfodi Sifil Tramgwyddau Traffig ar y Ffordd (Darpariaethau Cyffredinol)(Cymru) 2013) a Rheoliadau Gorfodi Sifil Tramgwyddau Traffig ar y Ffordd (Darpariaethau Cyffredinol)(Cymru) 2013.

# 9. CYFRADDAU TALU HTC

**Parcio**

| Mathau ar Dramgwydd | Gostyngiad ar HTCau a dalwyd (swm) | Gostyngiad a dalwyd (%) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (swm) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (%) | HTCau a dalwyd – gordal (swm) | HTCau a dalwyd – gordal (%) | Wedi'i stopio (swm) | Wedi'i stopio (%) | I'w dalu (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar y Stryd** | 37,427 | 57% | 8,711 | 13% | 2,243 | 3% | 8,919 | 14% | 12% |
| **Ar y stryd (Teledu Cylch Cyfyng)** | 6,517 | 65% | 218 | 2% | 699 | 7% | 1,329 | 13% | 12% |
| **Oddi ar y stryd** | 2,448 | 57% | 524 | 12% | 145 | 3% | 899 | 21% | 6% |

**Lôn fysus**

| Math ar Dramgwydd | Gostyngiad ar HTCau a dalwyd (swm) | Gostyngiad a dalwyd (%) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (swm) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (%) | HTCau a dalwyd – gordal (swm) | HTCau a dalwyd – gordal (%) | Wedi'i stopio (swm) | Wedi'i stopio (%) | I'w dalu (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lôn fysus** | 51,939 | 67% | 1,388 | 2% | 3,890 | 5% | 14,478 | 19% | 8% |

**Traffig sy'n symud**

| Mathau ar Dramgwydd | Gostyngiad ar HTCau a dalwyd (swm) | Gostyngiad a dalwyd (%) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (swm) | HTCau a dalwyd – cosb lawn (%) | HTCau a dalwyd – gordal (swm) | HTCau a dalwyd – gordal (%) | Wedi'i stopio (swm) | Wedi'i stopio (%) | I'w dalu (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amrywiol** | 49,590 | 73% | 1,391 | 2% | 3,896 | 6% | 7,301 | 11% | 8% |

*Gellir "atal" *gorfodi am nifer o resymau, megis os nad yw'r cerbyd wedi ei gofrestru'n gywir gyda'r DVLA fel nad oes modd i'r Cyngor wybod at bwy y dylid gyrru'r HTC

## 10. CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Rydym bob amser yn ymdrechu i chwilio am ffyrdd o ddarparu gwasanaeth parcio o'r radd flaenaf, gwella diogelwch i gerddwyr ac i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd ac i Gadw Caerdydd i Symud. Isod ceir nifer o brojectau a chynlluniau cyffrous rydym yn gobeithio eu gweithredu yn y flwyddyn ariannol 2019/2020 er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

### STRYDOEDD YSGOL

Rydym eisoes yn gweithio'n galed i helpu ysgolion ledled Caerdydd i hybu diogelwch ar y ffyrdd trwy'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd, gwneud gwelliannau i gyfleusterau cerdded/beicio a datblygu Cynlluniau Teithio Llesol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd o amgylch rhai ysgolion, mae'r pryderon a'r problemau diogelwch a achosir gan fynediad i gerbydau a gyrwyr anystyriol mor ddifrifol fel y penderfynwyd bod cyflwyno Strydoedd Ysgol yn gam pwysig iawn i'n helpu i ddatrys y broblem.

Strydoedd Ysgol yw strydoedd cyfyngedig (neu barthau cerddwyr) mewn ardaloedd o amgylch ysgolion prysur na chaniateir i gerbydau fynd i mewn iddynt yn ystod oriau brig yr ysgol. Ar hyn o bryd rydym ar y ffordd i gyflwyno pump o Strydoedd Ysgol yng Nghaerdydd fel rhan o brawf 18 mis. Os bydd y cynllun yn llwyddiannus, gellir ystyried ardaloedd o amgylch ysgolion eraill sydd â phroblemau tebyg.

### TRWYDDEDAU RHITHWIR I BRESWYLWYR

Rydym eisoes wedi gwneud camau mawr wrth gyflwyno trwyddedau a thocynnau tymor rhithwir mewn ardaloedd eraill, megis y bws cerdded a thrwyddedau POD. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda chyflenwyr i edrych ar ffyrdd o greu system drwyddedau rhithwir i breswylwyr, lle y gallai preswylydd hefyd wneud cais, talu a rheoli ei drwyddedau ar-lein neu drwy ap, gan ddileu'r oedi y gellir bod yn gysylltiedig â cheisiadau drwy'r post. Gan na fyddai angen arddangos unrhyw beth yn y cerbyd, byddai hyn hefyd yn lleihau'r risg o dderbyn dirwy parcio. Mae'r gwaith hwn yn barhaus.














## MYND I'R AFAEL AG OSGOWYR PARHAUS

Mae rhai pobl yn torri rheoliadau parcio a thraffig yn rheolaidd neu'n fwriadol ac nid ydynt yn talu'r dyledion y maent yn eu hysgwyddo o ganlyniad i hynny. Gelwir y rhain yn 'osgowyr parhaus'. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai'r Cyngor "gymryd y camau gorfodi cryfaf posibl yn dilyn cyflwyno HTC a chadarnhad o statws osgöwr parhaus."

Ym mis Ionawr 2019, dechreuom gymryd camau gweithredu yn erbyn cerbydau heb dreth fel rhan o ymgyrch cyfyngu ar gerbydau niwsans. Bellach mae'r mesurau hyn yn cael eu hymestyn er mwyn mynd i'r afael ag osgowyr parhaus, y rhai sy'n parcio'n beryglus a'r rhai sy'n mynd yn erbyn cyfreithiau parcio a thraffig yn parhaus – felly cadwch at Reolau'r Ffordd Fawr neu efallai y byddwch yn wynebu colli eich cerbyd.

## CYFYNGU AR DWYLL GYDA BATHODYNNAU GLAS

Mae Bathodynnau Glas yn achubiaeth hanfodol i'r rhai sydd â phroblemau symudedd difrifol. Er bod twyll gyda Bathodynnau Glas yn drosedd ddifrifol, gyda dirwy o hyd at £1,000 os cewch eich gweld yn euog, cânt eu camddefnyddio'n aml gan bobl nad oes ganddynt hawl i'w defnyddio, sy'n annerbyniol. Amcangyfrifir bod hyd at 20% o'r holl fathodynnau glas sy'n bodoli yn cael eu camddefnyddio.

http://www.benefitfraud.org.uk/bluebadgefraud/index.html

O ganlyniad rydym wedi cyflogi tîm Ymchwilio i Dwyll gyda Bathodynnau Glas arbenigol i weithio yn y dirgel gan ddefnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 er mwyn adeiladu tystiolaeth y gellir ei defnyddio'n ddiweddarach i erlyn troseddwr. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i erlyn unrhyw un sy'n defnyddio bathodyn glas yn dwyllodrus.

## ATODIAD 1: CYFRIF ARIANNOL GORFODI SIFIL

| Cyfrif Gorfodi Sifil | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** |
| | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au |
| **Balans y Cyfrif ar 1 Ebrill 2019** | **(121)** | **(69)** | **(371)** | **(351)** | **(701)** |
| **Incwm** | | | | | |
| Taliadau Parcio Ceir ar y Stryd | (3,917) | (4,128) | (4,362) | (4,575) | (5,059) |
| Taliadau Parcio Ceir Oddi ar y Stryd | (667) | (1,000) | (1,042) | (1,087) | (1,088) |
| Taliadau Trwyddedau Parcio i Breswylwyr | (254) | (309) | (330) | (346) | (368) |
| Hysbysiadau Tâl Cosb am Barcio | (2,077) | (2,085) | (2,019) | (1,973) | (2,384) |
| Hysbysiadau Tâl Cosb ar gyfer Lonydd Bysiau a Thraffig sy’n Symud | (848) | (2,840) | (3,360) | (3,992) | (5,542) |
| Incwm arall | (54) | | | (55) | (7) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(7,817)** | **(10,362)** | **(11,113)** | **(12,028)** | **(14,448)** |
| **Treuliau** | | | | | |
| Cyfrif Costau Gweithredol a Pharcio | 1,087 | 1,246 | 1,037 | 698 | 914 |
| Gwasanaeth Gorfodi gan gynnwys prosesu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig | 2,856 | 4,159 | 4,607 | 5,276 | 5,843 |
| **Cyfanswm y Treuliau** | **3,943** | **5,405** | **5,644** | **5,974** | **6,757** |
| **(Gwarged)/Diffyg Blynyddol Gweithredol** | **(3,874)** | **(4,957)** | **(5,469)** | **(6,054)** | **(7,691)** |
| | | | | | |
| Cyfraniad tuag at gynlluniau a ganiateir | 3,926 | 4,655 | 5,489 | 5,704 | 6,902 |
| Cyfraniad at (Gwarged)/Diffyg y Cyfrif Parcio y Flwyddyn | 52 | (302) | 20 | (350) | (789) |

## ATODIAD 2: CYFRADDAU CYFLWYNO HTC LONYDD BYSUS A THRAFFIG SY'N SYMUD YN ÔL LLEOLIAD

| **Lleoliad** **(c/â = cyffordd â)** | **Camera Sefydlog*** | **Cod** | **Math ar Dramgwydd** | **HTCau a gyflwynwyd 2017/2018** | **HTCau a gyflwynwyd 2018/2019** | **Newid % blynyddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A4232 System Gylchu ffordd gyswllt Dwyrain y Bae | | 31 | Cyffordd blwch | - | 983 | - |
| Cyffordd Adam Street â'r Ffordd Gyswllt Ganolog | | 31 | Cyffordd blwch | - | 3,905 | - |
| Amroth Road i mewn i Ffordd Orllewinol y Bont-faen | √ | 50L | Dim troi i'r chwith | 444 | 517 | 16% |
| Llwynfedw i mewn i Manor Way (Tua'r Gogledd) | √ | 50L | Dim troi i'r chwith | 947 | 859 | -9% |
| Cyffordd Rhodfa Bute â Stryd Bute, Heol y Tollty a Heol Pont-yr-Aes | √ | 31 | Cyffordd blwch | 2,005 | 2,112 | 5% |
| Cyffordd Rhodfa Bute â Mary Anne Street | | 31 | Cyffordd blwch | - | 162 | - |
| Ffordd Caerffili (Tua'r De 1) | | 34 | Lôn fysus | 1,032 | 2,081 | 102% |
| Ffordd Caerffili (Tua'r De 1) | | 34 | Lôn fysus | 127 | 280 | 120% |
| Ffordd Caerffili 3 (Tua'r Gogledd) | | 34 | Lôn fysus | 629 | 1,266 | 101% |
| Cyffordd Ffordd Caerffili â Rhydhelig Ave | √ | 31 | Cyffordd blwch | 2,213 | 2,786 | 21% |
| Ffordd Caerdydd i Ely Road | | 50R | Dim troi i'r Dde | - | 2,359 | - |
| Ffordd Churchill | √ | 34 | Lôn fysus | 364 | 394 | 8% |
| Cyffordd Ffordd Churchill â Stryd Ogleddol Edward | | 50R | Dim troi i'r Dde | 1,127 | 5,617 | 398% |
| Cyffordd Ffordd Churchill â Rhodfa Bute | | 31 | Cyffordd blwch | - | 5,132 | - |
| Colum Road i mewn i Heol Corbett | | 50R | Dim troi i'r Dde | 122 | 854 | 600% |
| Ffordd Ddwyreiniol y Bont-faen ger Parc Fictoria | | 34 | Lôn fysus | - | 2,995 | - |
| Heol y Crwys | √ | 34 | Lôn fysus | 1,256 | 874 | -30% |
| Crystal Glen i mewn i Heathwood Road | √ | 50R | Dim troi i'r Dde | 2,924 | 1,448 | -50% |
| Giât bysus Heol y Tollty (tua'r Dwyrain) | √ | 34 | Giât Bysus | 7,755 | 10,695 | 38% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Giât Bysus (Heol y Tollty (tua'r Gorllewin) | √ | 34 | Giât Bysus | 7,483 | 8,654 | 16% |
| Heol y Dug | √ | 34 | Lôn fysus | 2,348 | 2,340 | 0% |
| Cyffordd Dumfries Place â Rhodfa'r Orsaf | | 31 | Cyffordd blwch | 1,680 | 2,194 | 31% |
| Heol Pont-yr-Aes, i mewn i Faes Parcio John Lewis | √ | 50L | Dim troi i'r chwith | 6,490 | 7,346 | 13% |
| Giât bysus Ffordd y Brenin | √ | 34 | Giât Bysus | 16,788 | 15,065 | -10% |
| System Gylchu Ffordd Lecwydd ger Hadfield Road | | 31 | Cyffordd blwch | - | 5,024 | - |
| System Gylchu Ffordd Lecwydd ger slipffordd A4232 | | 31 | Cyffordd blwch | - | 148 | - |
| Cyffordd Ffordd Lecwydd â Pharc Manwerthu y Capital | | 31 | Cyffordd blwch | 1,482 | 2,079 | 40% |
| Linden Grove | | 51 | Dim Mynediad. | - | 962 | - |
| Heol Llantrisant | √ | 34 | Lôn fysus | 1,746 | 1,248 | -29% |
| Malvern Drive (tua'r dwyrain) | | 51 | Dim Mynediad. | 1,941 | 2,682 | 38% |
| Malvern Drive (tua'r gorllewin) | | 51 | Dim Mynediad. | 1,876 | 2,286 | 22% |
| Cyffordd Moira Terrace ag Adam Street a Fitzalan Place | | 31 | Cyffordd blwch | - | 1,139 | - |
| Heol Casnewydd yn Wordsworth Ave | √ | 50U | Dim tro pedol | 6,978 | 4,074 | -42% |
| Heol Casnewydd cyn Beresford Road | √ | 34 | Lôn fysus | 978 | 860 | -12% |
| Heol Casnewydd cyn Colchester Avenue | √ | 34 | Lôn fysus | 2,085 | 1,485 | -29% |
| Heol Casnewydd cyn Fitzalan Place | √ | 34 | Lôn fysus | 7,140 | 8,740 | 22% |
| Heol Casnewydd cyn Rover Way | √ | 34 | Lôn fysus | 8,423 | 4,623 | -45% |
| Heol Casnewydd cyn Rhodfa'r Orsaf | √ | 34 | Lôn fysus | 2,957 | 2,270 | -23% |
| Heol Casnewydd cyn West Grove | √ | 34 | Lôn fysus | 1,127 | 1,950 | 73% |
| Heol Casnewydd i mewn i Newport Road | | 50R | Dim troi i'r Dde | 2,007 | 3,195 | 59% |
| Heol y Gogledd cyn Ffordd y Brenin | | 34 | Lôn fysus | 5,347 | 8,247 | 54% |
| Heol y Gogledd i mewn i Heol y Coleg | √ | 50R | Dim troi i'r Dde | 4,271 | 4,963 | 16% |
| Paget Street | | 51 | Dim Mynediad. | 507 | 414 | -18% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Plas y Parc (tua'r De o'i gyffordd â Boulevard de Nantes) | √ | 34 | Lôn fysus | 6,091 | 5,306 | -13% |
| Piercefield Place i mewn i Heol Gasnewydd | √ | 50R | Dim troi i'r Dde | 1,801 | 1,140 | -37% |
| Southern Way | √ | 34 | Lôn fysus | 1,727 | 1,070 | -38% |
| Heol yr Eglwys Fair i mewn i Lôn y Felin | | 50L | Dim troi i'r chwith | 3,815 | 3,659 | -4% |
| Cyffordd Heol y Porth â Stryd Wood | √ | 50L | Dim troi i'r chwith | 9,421 | 5,918 | -37% |
| **CYFANSWM** | | | | **127,454** | **154,400** | **+21%** |

*At ddibenion yr adroddiad hwn ystyrir camera sefydlog yn gamera a osodwyd cyn blwyddyn ariannol 2017/2018.

## DADANSODDIAD




Yn y flwyddyn ariannol gosodom 10 o gamerâu gorfodi eraill, yn canolbwyntio yn bennaf ar gyffyrdd blwch er mwyn helpu i liniaru tagfeydd ar lwybr prifwythiennol trwy atal pobl rhag bod yn ddiystyriol ac achosi rhwystr i lif y traffig.

Er bod cynnydd cyffredinol o 21% yn y HTC a ddosbarthwyd, disgwyliwyd hyn oherwydd i ni osod nifer o gamerâu newydd drwy gydol blwyddyn ariannol 2017/2018. Er bod cynnydd siomedig mewn rhai lleoliadau presennol, mae'r duedd gyffredinol yn un o leihau nifer y tramgwyddau mewn lleoliadau lle y mae camerâu'n sefydlog, gyda 14 allan o 25 yn gweld dirywiad; a'r cyfraddau tramgwyddo yn gostwng mewn rhai lleoliadau gan gymaint â hyd at 50%.

Er hyn, mae'n bwysig cofio bod tua 79,000,000 o ddigwyddiadau teithio yn cael eu gwneud bob blwyddyn calendr yng Nghaerdydd. Mae hyn yn golygu bod dim ond 0.2% o ddigwyddiadau teithio wedi arwain at ddosbarthu HTC, sy'n dangos bod mwyafrif y gyrwyr yn cadw at Reolau'r Ffordd Fawr. Fodd bynnag, hoffem weld pawb yn dilyn eu hesiampl ac yn chwarae eu rhan wrth wella diogelwch wrth y ffordd a lliniaru tagfeydd. Gyda'n gilydd gallwn oll Gadw Caerdydd yn Symud!



Parc Cathays (Canolfan Ddinesig Caerdydd)